Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 12a:
Sut wnaethon ni?

Amcan Dysgu

Gwerthuso llwyddiant y fenter a'r rôl sydd wedi ei chwarae gan y sawl a weithiodd drosti.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Agwedd

- Penderfyniad
- Hunan-hyder

Cysylltiadau

- Gweithio gyda Phobl Eraill
- Cyflwyno
- Cyfathrebu

Gweithgareddau dysgu

Trafodwch gyda disgyblion bwysigrwydd adolygu beth wnaethon nhw a, chan gyfeirio'n ôl i'w Cynllun Busnes, ydyn nhw wedi cyflawni beth roedden nhw'n bwriadu ei gyflawni.

Gofynnwch i bob grŵp awgrymu newidiadau i'r ffordd bydden nhw'n cynllunio ac yn cyflawni menter debyg yn y dyfodol.

Gan ddefnyddio Rhestr Wirio Gwerthuso Gweithgaredd 12, mae'r disgyblion yn nodi eu llwyddiannau personol eu hunain – beth wnaethon nhw'n dda a ddim cystal?

Mae'r disgyblion yn trafod ac yn penderfynu beth i'w wneud gydag unrhyw elw.

Gofynnwch i'r disgyblion o'r grŵp buddugol roi cyflwyniad am eu menter i weddill yr ysgol. Byddai'r cyflwyniad hwn yn rhan o gais yr ysgol am y gystadleuaeth genedlaethol a hefyd yn fan cychwyn am brosiectau menter eraill y gallai'r ysgol eu cyflawni yn y dyfodol.

Mae cyflawniadau disgyblion yn cael eu cydnabod a'u dathlu gan yr ysgol, llywodraethwyr a chan rieni.

Gweithgaredd 12a:
Sut wnaethon ni?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu myfyrio ar eu menter a gwerthfawrogi cyfraniadau a gafodd eu gwneud gan aelodau unigol.

Adnoddau mae eu hangen

- Rhestr Wirio Gwerthuso Gweithgaredd 12
- TGCh

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Gwrando
- Cydweithredu a thrafod.

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir.

2. ABCh

- Myfyrio ar gynnydd, nodi cryfderau a gwendidau a gosod targedau am welliant.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government